**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Grŵp Trafnidiaeth Strategol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 10fed Chwefror, 2021 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor J.Pratt (Chairman)

County Councillors: A. Easson a S. Woodhouse

| | |
|---|---|
| D. Flint | Severn Tunnel Action Group (STAG) |
| T. Hand | Magor Action Group on Rail (MAGOR) |
| P. Turner | Magor Action Group on Rail (MAGOR) |
| R. Corcoran | Friends of the 65 Bus |
| B Mahony | Friends of the 65 Bus |
| R Lemon | Transition Chepstow |
| J. Callard | Abergavenny Cycling Group |
| L. Mertens | Transport for Wales, Community Engagement |
| T. Melville | Transition Chepstow |

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Roger Hoggins | Pennaeth Gwasanaeth – Prosiectau Strategol (Cyfnod Sefydlog) |
| Richard Cope | Rheolwr Uned Cludiant Teithwyr |
| Christian Schmidt | Swyddog Cynllunio a Pholisi Trafnidiaeth |
| Mark Hand | Pennaeth Llunio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd |
| Deb Hill-Howells | Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig |
| Gareth Emery | Passenger Transport Operations and Fleet Manager |
| Naomi Thomas | Passenger Transport Contract and Compliance manager |
| Paul Sullivan | Youth, Sport and Active Travel Manager |
| Paul Keeble | Peiriannydd Grŵp (Priffyrdd a Rheoli Llifogydd) |

1. **<u>County Councillor D. Dovey</u>**

O dan arweiniad y Cadeirydd, roedd y Grŵp Strategol wedi cynnal munud o ddistawrwydd er cof am y Cynghorydd Sir D. Dovey, a fu'n gyn-Gadeirydd diweddar o'r Grŵp. Gan ei ddisgrifio fel gŵr bonheddig go iawn, roedd aelodau wedi talu teyrnged i'r Cynghorydd Dovey gan sôn am eu hatgofion amdano, ei gyraeddiadau gan gynnwys ei gefnogaeth a'i anogaeth at Orsaf Rhodfa Magwyr, a'i ymroddiad at y Grŵp. Roedd y Cadeirydd, ar ran y Grŵp, wedi dymuno cofnodi eu cydymdeimlad i wraig y Cynghorydd Dovey, Steph, ei fab Spencer, ei deulu a'i ffrindiau.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Grŵp Trafnidiaeth Strategol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 10fed Chwefror, 2021 at 10.00 am**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. **Trafodaeth ar yr adborth o'r holiadur a gylchredwyd yn ddiweddar**

Roedd y Cadeirydd wedi rhoi diolch i'r Pennaeth Gwasanaeth (Prosiectau Strategol) a'r Swyddog Cyfathrebu am lunio a rhannu'r holiadur ac i bawb a oedd wedi llenwi'r holiadur.

Rôl y Grŵp yn wreiddiol oedd cynnig cefnogaeth i'r Aelod Cabinet drwy gynnig arbenigedd o'r tu allan i'r awdurdod, a hynny gan unigolion sydd â diddordeb arbenigol yn datblygu trafnidiaeth o fewn y sir. Nid pwyllgor craffu yw'r Grŵp ond mae'n amhrisiadwy wrth ddarparu sylwadau a herio polisïau a strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Grŵp wedi elwa o sawl cyflwyniad gan asiantaethau allanol. Mae hyn yn cynorthwyo i lywio'r Cyngor wrth iddo ddatblygu strategaethau, blaenoriaethau, cyfleoedd a mentrau eraill.

Roedd yr adborth a rannwyd fel a ganlyn yn seiliedig ar 13 ymateb:

- Cytunodd y mwyafrif fod amlder y cyfarfodydd yn addas gydag un neu ddau yn nodi bod hyn yn rhy aml;
- Credwyd fod hyd y cyfarfodydd yn briodol, gydag un ymateb yn nodi fod y cyfarfodydd yn rhy hir; a
- Credwyd fod hyd yr agenda yn addas gyda dau ymateb yn nodi fod yr agenda yn rhy hir.

Roedd adborth arall yn cynnwys:

- Credai'r mwyafrif y dylai'r grŵp barhau fel y mae gydag un ymateb yn nodi y dylai fod yn fwy strategol a'n llai gweithredol, gyda'r awgrym y dylid sefydlu is-bwyllgorau (e.e. ar gyfer bysiau a rheilffyrdd) sydd yn adrodd yn ôl i'r prif Grŵp gyda'r nod o reoli'r agenda yn well;
- Derbyniwyd sylw fod yna ormod o bwyslais ar drafnidiaeth gyhoeddus a diffyg ffocws ar deithio llesol a lleihau'r defnydd o geir;
- Gwnaed cais am ddealltwriaeth well o sut y mae'r Cyngor yn neilltuo cyllid;
- Cafwyd awgrym y dylid trefnu cyfarfodydd yn seiliedig ar themâu.

Wrth ystyried yr hyn sydd yn annog aelodau i fynychu a'r hyn y mae'n cynnig, roedd yr adborth yn cynnwys:

- Pryder am drafnidiaeth gyhoeddus;
- Awgrym y dylid mynd nôl at y fformat Gogledd/De gwreiddiol;
- Cwestiynwyd a ddylai'r Grŵp fod yn is-bwyllgor o'r Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf;
- Yn codi proffil trafnidiaeth gyhoeddus ac yn herio darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus;
- Yn cynnig cyfleoedd i godi materion traws-ffiniol;
- Helpu gwella trafnidiaeth gyhoeddus;
- Mae cyflwyniadau gan fudiadau allanol yn fuddiol;
- Rhwydweithio gyda Chynghorwyr a swyddogion er mwyn rhannu materion cyfredol;

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Grŵp Trafnidiaeth Strategol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 10fed Chwefror, 2021 at 10.00 am**

- Trafnidiaeth bws gwledig – cyfle i bartïon a chanddynt diddordeb i gael eu clywed mewn grŵp strategol;
- Ni fyddai amser gan Bwyllgorau Dethol i ganolbwyntio ar ddarpariaeth trafnidiaeth integredig;
- Pwyllgor pwysig – gallai cynrychiolwyr y pwyllgor ardal fynychu ar gyfer materion ehangach sydd yn ymwneud gyda gwasanaethau bysiau, trenau, mynediad at orsafoedd rheilffordd, parcio ayyb;
- Yn codi proffil materion a fyddai fel arall yn cael eu hesgeuluso; a
- Dylai feddu ar fwy o wrthrychedd o ran ei bwrpas.

Rhannwyd crynodeb o'r adborth gyda'r Grŵp. Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ail-ddrafftio er mwyn adlewyrchu'r adborth. Bydd y cylch gorchwyl drafft yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd fod Teithio Llesol wedi ei ychwanegu at y portffolio ar gyfer y Grŵp. Roedd y Cadeirydd wedi atgoffa'r Grŵp fod unrhyw gais am gyllid yn gorfod cynnwys elfen o Deithio Llesol.

Roedd y Rheolwr Ieuenctid, Chwaraeon a Theithio Llesol wedi esbonio'r ffocws strategol o ran y dull awdurdod cyfan ar gyfer Teithio Llesol. Mae cynigion uchelgeisiol, gyda chyfanswm o £4.2m, wedi eu cyflwyno eleni ar gyfer prosiectau yng Nghil-y-coed, Y Fenni a Threfynwy. Bydd diweddariadau cyson ar waith cyfredol a chynlluniau'r dyfodol yn cael eu darparu ac mae croeso i unrhyw aelod o'r grŵp i gynnig mewnbwn.

Roedd Aelod Grŵp wedi datgan, wrth roi eu cefnogaeth lawn i Orsaf Rhodfa Magwyr mewn cyfarfod diweddar, roedd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o ystyried y daith gyfan o'r cartref i'r orsaf. O ganlyniad, mae angen cynllun strategol sydd yn integreiddio teithio llesol ar frys. Roedd y Rheolwr Teithio Llesol a Phennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd, yn gweithio gyda Magor Action Group On Rail (MAGOR) er mwyn ystyried teithio llesol, parcio a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) diwygiedig.

Roedd Aelod o'r Grŵp wedi codi'r pwysigrwydd o wasanaeth bysiau yn cysylltu gyda gwasanaethau rheilffyrdd o fannau dechrau gwledig. Anogwyd pawb yn y Grŵp i ddarllen dogfen Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Bydd tîm bysiau rhanbarthol yn cael ei greu er mwyn gweinyddu grantiau i'r diwydiant bysiau a bydd yn rhan o gylch gorchwyl Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas Caerdydd. - darllenwch Adroddiad y Cabinet (20fed Ionawr 2021) cliciwch yma.

Wrth drafod y cysylltiadau rhwng bysiau a rheilffyrdd, nodwyd fod Twristiaeth ar goll o Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ac Astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar y defnydd o geir tra'n cynnal gwasanaethau i drigolion. Rhaid i'r tîm bysiau rhanbarthol ymgynghori gyda defnyddwyr bysiau, cynrychiolwyr defnyddwyr bysiau tra'n gweithio hefyd ar y marchnata a'r cyfathrebu. Mae Ffrindiau Bws 65 wedi cynnig chwarae rhan.

Gofynnod Aelod pam na roddwyd ystyriaeth i drafnidiaeth gyhoeddus i Ysbyty'r Grange yn Llanfrechfa. Cytunwyd y dylai'r Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd i wneud ymholiadau gyda Thîm Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Ychwanegwyd bod trigolion yn Ne'r Sir wedi cael problemau yn cyrraedd Gorsaf Cwmbrân ar gyfer y brechiad COVID. Mae'r gwasanaeth Grassroutes yn caniatáu trigolion i ddefnyddio'r Grassroutes o fewn oriau arferol i deithio i Gwmbrân (gan lacio'r cyfyngiad arferol o 15 milltir). Rhoddwyd cyngor fod trigolion ag apwyntiadau yn ystod y dydd, o

ddydd Llun i ddydd Gwener, yn medru defnyddio'r gwasanaeth. Cytunwyd y dylid cynnal adolygiad o'r gwasanaeth/gwasanaethau bysiau/y galw cymunedol o ran Grassroutes a byddai modd trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Aelod nad yw amserlenni ar gyfer bysiau ar gael mewn gorsafoedd bysiau ac nid oes ffonau clyfar gan bawb er mwyn cael gafael ar y wybodaeth hon. Dylai cwmnïau gwasanaethau bysiau sicrhau bod manylion y ddarpariaeth ar gael fel bod defnyddwyr yn medru gweld pryd y bydd y bws nesaf ar gael a dylai'r gwasanaethau cael eu hadolygu / ail-drefnu gyda'r nod o gynyddu'r nifer o deithwyr a bod yn fwy effeithiol. Bydd darpariaeth Gwasanaeth Bysiau (gan gynnwys y Gwasanaeth Grassroutes) yn cael ei ychwanegu at agenda'r dyfodol.

## 4. <u>Ymateb i Ddogfennau Ymgynghori (fel ar gael)</u>

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol a Landlordiaid Integredig wedi cyflwyno'r Ymgynghoriad ar gyfer Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru gan wahodd Aelodau'r Grŵp i gynnig sylwadau er mwyn eu hychwanegu at ymateb yr awdurdod.

Awgrymodd Aelod Grŵp y dylid cael pwyntiau gwefru cyflym yng Ngorsaf Rhodfa Magwyr yn y maes parcio arfaethedig. Esboniwyd fod cynnig wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid yn y flwyddyn ariannol nesaf am strategaeth wefru ar gyfer cerbydau trydanol. Ychwanegwyd fod y rhwydwaith trydan yn Ne'r Sir wedi ei gyfyngu ac o'r herwydd, mae Western Power Distribution yn medru diffodd y swîts ar gyfer unrhyw dechnoleg adnewyddadwy. Rydym angen deall capasiti yn yr ardaloedd yma, er enghraifft defnyddio paneli solar a batris. Cytunwyd y byddai meysydd parcio cyhoeddus yn medru cynnig cyfleoedd i ddarparu mannau gwefru. Rhaid ystyried cydraddoldeb cymdeithasol hefyd wrth ystyried lleoliadau e.e. ni ddylid ymatal rhag gosod mannau gwefru ar y strydoedd.

Esboniodd Aelod Grŵp fod Karshare yn caniatáu perchnogion ceir i rentu eu ceir i bobl heb gerbyd. Mae 'Transition Chepstow' yn ystyried prynu cerbydau trydanol er mwyn ychwanegu at y fflyd yma a fyddai'n caniatáu pobl i roi cynnig ar geir trydanol. At hyn, efallai y bydd fflyd o feiciau trydanol yn cael ei brynu a bydd angen mannau gwefru ar gyfer beiciau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Teithio Llesol fod rhai e-feiciau wedi eu prynu fel cynllun peilot yng Nghil-y-coed. Mae Covid wedi cyfyngu'r prosiect ar hyn o bryd. Gwnaed cynnig i ystyried cefnogi prosiect tebyg yng Nghas-gwent. Bydd manylion pellach yn cael eu danfon at 'Transition Chepstow'.

Roedd y Cadeirydd wedi atgoffa'r Grŵp o brosiect cerbydau hydrogen 'River Simple'.

Anogwyd Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.

## 5. <u>Unrhyw Fater Arall</u>

- Astudiaeth Pentrefi Dyffryn Gwy: Mae'r prosiect yn bwrw rhagddo a bydd ARUP yn cysylltu ag aelodau grŵp am eu sylwadau. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys twristiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent: Dylai adroddiad adolygu Cam 2 WelTAG fod ar gael ym Mawrth 2021.

- Gorsaf Rheilffordd Y Fenni: Bydd astudiaeth yn ystyried yr opsiynau o ran y gyfnewidfa a Pharcio a Theithio.
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl): Awgrymodd aelod o'r Grŵp fod yr Awdurdod yn creu CTLl newydd drwy broses ymgynghori a fydd yn nodi, mewn modd strategol, yr holl destunau a godir, yn meddu ar amcanion eglur ac yn adlewyrchu uchelgais yr awdurdod i gyrraedd ei dargedau $CO^2$ a'r cynllun defnyddio tir. Roedd y Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd, wedi cadarnhau fod ymgynghorydd wedi ei apwyntio er mwyn llunio CTLl sydd wedi ei ddiweddaru. Bydd hyn yn adlewyrchu datganiad Argyfwng Hinsawdd y Cyngor.
- Gwefru cerbydau trydanol: Wrth ymateb i ymholiad, esboniwyd nad polisi'r Cyngor yw cael ceblau ar hyd palmentydd. Mae'r Awdurdod yn ystyried ffyrdd gwahanol o wefru cerbydau trydanol gan gynnwys gwefru ar y strydoedd.
- 'Transition Chepstow': Dywedwyd wrth y Grŵp fod 'Transition Chepstow' wedi creu ei gynllun trafnidiaeth cynaliadwy cyntaf. Gobeithir y bydd hyn yn cynnig templed i drefi eraill. Cytunwyd y byddai'r cynllun yn cael ei rannu gyda'r Grŵp.
- Natur wledig: Cyfeiriodd Aelod at flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i leihau'r angen i deithio ond nodwyd yr angen i sicrhau bod trigolion cymunedau gwledig yn medru cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r opsiwn o deithio mewn ceir er mwyn delio ag arwahanrwydd cymdeithasol, yn cael mynediad at wasanaethau, yn profi ymdeimlad o gymuned a'r budd cymdeithasol o gwrdd â phobl. Cytunwyd mai'r nod yw teithio llai o filltiroedd, llai o teithio i gyrchfannau: mae hyn yn anodd mewn mannau gwledig. Cydnabuwyd bod oedran ac iechyd trigolion yn cyfyngu ar gyfleoedd i deithio'n llesol.
- Amserlenni Bysiau: Nodwyd nad yw'r amserlenni ar gyfer bysiau ar wefan y Cyngor. Cydnabuwyd fod y rhain wedi eu tynnu oddi yno yn sgil y newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth yn ystod y pandemig a'r cyfnod clo. Cytunwyd ychwanegu manylion ar gyfer bysiau 75 a 65 i'r wefan. Mae amserlenni ar gyfer Bws 65 ar gael yma: <https://friendsofthe65bus.org.uk/>
  Mae cynllunydd teithio ar gyfer Cymru ar gael yma: <https://www.traveline.cymru/>
- Gorsaf Y Fenni: Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynnig diweddariad ar y gwaith parhaus i wella Gorsaf Y Fenni. Mae'r Orsaf, sydd wedi gwasanaethu'r dref a'r gymuned ehangach ers Oes Fictoria Ganol, yn mynd i newid wrth i rai o'r mannau gwag gael eu trawsnewid yn galeri celf. Darllenwch y datganiad i'r wasg isod.

https://news.tfwrail.wales/news/improvements-at-abergavenny-railway-station-thanks-to-investment-by-transport-for-wales

## 6. Rhestr Weithredu o'r cyfarfod diwethaf

Nodwyd y rhestr o gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.

## 7. Blaen Raglen Gwaith

Gwahoddwyd Aelodau'r Grŵp i ddanfon eitemau posib i'w cynnwys at: wendybarnard3@monmouthshire.gov.uk

## 8. Cadarnhau nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Tachwedd 2020

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywrain.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Grŵp Trafnidiaeth Strategol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 10fed Chwefror, 2021 at 10.00 am**

**9. <u>I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel 14eg Gorffennaf 2021</u>**

**The meeting ended at 11.35 am**